O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif. 523 (Cy.72)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Cilfan gyferbyn â Fferm Cotts, Robeston Wathen, Sir Benfro) (Gwahardd Troi i'r Dde a Gwahardd Cerbydau rhag Cael Mynediad) 2011

Gwnaed	*24 Chwefror 2011*
Yn dod i rym	*28 Chwefror 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Llundain–Abergwaun yr A40 (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) ("Deddf 1984") ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu, Heddlu Dyfed Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Mae'r Gorchymyn hwn yn dod i rym ar 28 Chwefror 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Cilfan gyferbyn â Fferm Cotts, Robeston Wathen, Sir Benfro) (Gwahardd Troi i'r Dde a Gwahardd Cerbydau rhag Cael Mynediad) 2011.

2. Ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd sy'n mynd tua'r gorllewin ar y darn hwnnw o'r gefnffordd i'r dwyrain o Gylchfan Robeston Wathen, droi i'r dde 280 o fetrau i'r dwyrain o ganol Cylchfan Robeston Wathen, i fynd ar gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd er mwyn mynd i mewn i ben gorllewinol y gilfan sydd gyferbyn â Fferm Cotts, Robeston Wathen yn Sir Benfro.

3. Ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd sy'n mynd tua'r gorllewin ar hyd y darn hwnnw o'r gefnffordd i'r dwyrain o Gylchfan Robeston Wathen, fynd i mewn i ben dwyreiniol y gilfan sydd wedi ei lleoli 410 o fetrau i'r dwyrain o ganol Cylchfan Robeston Wathen, gyferbyn â Fferm Cotts, Robeston Wathen yn Sir Benfro.